Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru

Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom ni	5
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	8
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	23
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	24
Adran 5	Gwariant	25

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42304 ISBN digidol 978-1-80195-004-6

Rhagair

Dyma fy 17eg Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng mis Medi 2019 a mis Awst 2020.

Yn ystod y flwyddyn, roedd hyfforddiant perthnasol yn parhau i gael ei gynnig mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth Anghenion Ychwanegol, ond ciliodd yr hyfforddiant i'r cefndir yn dilyn y cyhoeddiad ar 17 Medi 2019 gan Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg. Er y bydd y rolau statudol a grëwyd gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dechrau ym mis Ionawr 2021, nododd y cyhoeddiad na fyddai'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yn dechrau tan fis Medi 2021, ac yna dim ond fesul cam. Roedd hi'n ddefnyddiol i'r Gweinidog bwysleisio yn ei Datganiad ac mewn llythyr at awdurdodau lleol, y dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ysgolion sicrhau eu bod yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn unol â'u rhwymedigaethau statudol presennol. Yn sgil yr oedi cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth Anghenion Ychwanegol newydd, mae'n gadarnhaol bod rhieni'n dal i arfer eu hawliau o dan y system bresennol ac yn dod â materion gerbron y Tribiwnlys.

Er ei bod yn anffodus bod y ddeddfwriaeth yn cymryd cyhyd i'w rhoi ar waith, gobeithiaf y bydd yr amser ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio'n adeiladol gan bob plaid i sicrhau bod y ddeddfwriaeth a fydd o fudd i blant yn cael ei gweithredu'n ddidrafferth ac yn llwyddiannus.

Nodwn fod y Gweinidog, yn ei Datganiad ym mis Medi, wedi datgan ei bod yn bwriadu gosod y Cod Ymarfer ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig, a Rheoliadau newydd y Tribiwnlys i'w cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn 2020. Rydym yn ddiolchgar ein bod wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd gyda'r tîm sy'n gweithio ar y Cod a'r Rheoliadau, gan ein bod wedi gallu egluro materion amrywiol ac wedi datblygu perthynas waith dda gyda'r tîm. Mae'n amlwg ein bod yn awyddus iawn bod y Rheoliadau'n gynhwysfawr a'u bod yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd – gan fod y misoedd diwethaf wedi dangos bod angen yr hyblygrwydd hwnnw arnom.

Rydym wedi penodi pum arbenigwr addysgol newydd ac rydym wrthi'n trefnu eu hyfforddiant cynefino. Adroddais y llynedd ein bod hefyd wedi penodi mwy o Gadeiryddion drwy ymarfer traws-aseinio. Mae'n bleser gennyf nodi, yn dilyn rhywfaint o hyfforddiant cynefino, fod y Cadeiryddion hyn bellach yn eistedd fel aelodau o'r Tribiwnlys yn rheolaidd.

Un o'r prif heriau yn ystod y flwyddyn oedd parhau i wrando ar apeliadau a hawliadau ar ddechrau'r pandemig yn sgil y cyfyngiadau symud. Yn gynnar ym mis Mawrth 2020, gwnaethom dreialu'r defnydd o ystafelloedd rhithwir a phenderfynu mai defnyddio'r dechnoleg honno oedd y ffordd orau ymlaen i ni. Ar ôl rhywfaint o hyfforddiant i'n Cadeiryddion a'n haelodau, roeddem wedi gallu cyflwyno'r system, a chynhaliwyd y gwrandawiadau cyntaf ym mis Mai 2020. Gwyddem fod yn rhaid inni ddod o hyd i ffordd o fwrw ymlaen â'n llwyth gwaith ac mae'n glod i'n Hysgrifenyddiaeth a'n Cadeiryddion a'n haelodau fod hyn wedi gweithio cystal. Sylweddolwyd hefyd ei bod hyd yn oed yn bwysicach yn y cyfnod anodd hwn i gadw mewn cysylltiad â'n defnyddwyr hefyd. Roeddem yn credu y gallem ddefnyddio ein hystafelloedd rhithwir i gynnal ein cyfarfodydd ar gyfer y grŵp defnyddwyr. Fodd bynnag, er mwyn i'r cyfarfodydd fod yn effeithiol, sylweddolwyd y byddai angen inni gyfyngu ar nifer y cyfranogwyr. Felly, penderfynwyd rhannu'r cyfarfodydd yn grwpiau llai a chafodd hynny ei wneud ym mis Awst 2020. Er na allaf ddweud bod y cyfarfodydd hynny mor ddigymell

â'n cyfarfodydd arferol, roeddent yn effeithiol o ran cadw mewn cysylltiad â'n defnyddwyr a chyfnewid safbwyntiau. Un o ganlyniadau cadarnhaol y cyfarfodydd hyn oedd y ffaith ein bod wedi gallu cael cyfranogwyr o Ogledd a De Cymru yn yr un cyfarfod.

Yn anffodus, bu'n rhaid inni ganslo ein Cynhadledd Flynyddol eleni, ond rydym yn ystyried ffyrdd y gallwn fwrw ymlaen, er y byddai hynny'n golygu fformat gwahanol. Rwyf yn awyddus iawn nad ydym ar ei hôl hi o ran ein hanghenion hyfforddi. O ran y cynnydd yn yr ystod oedran i 25 oed yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, rwy'n ymwybodol bod angen inni ddarparu hyfforddiant ar gyfer y blynyddoedd addysg bellach.

At ei gilydd, mae eleni wedi bod yn heriol i bawb. Mae'n ymddangos y bydd yr heriau hyn yn parhau am rai misoedd. Fodd bynnag, rhaid imi dalu teyrnged i'r ffordd y mae'r Ysgrifenyddiaeth, Cadeiryddion, Aelodau a'n holl ddefnyddwyr wedi ymateb i'r anawsterau, y newidiadau a'r heriau yr ydym i gyd wedi'u hwynebu yn ystod y misoedd diwethaf. Diolch ichi i gyd am eich cefnogaeth, eich hiwmor da mewn cyfnod anodd a'ch gwaith caled i sicrhau bod y Tribiwnlys wedi gallu parhau â'i waith. Rwy'n hyderus, gyda'r gefnogaeth barhaus hon, fod y Tribiwnlys mewn sefyllfa dda i wynebu heriau anochel y 12 mis nesaf.

Rhiannon Walker
Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- Sail TAAAC
- Swyddogaeth TAAAC
- Rheoliadau TAAAC
- Proses TAAAC
- Aelodau TAAAC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â TAAAC
- Defnyddio TAAAC

Sail TAAAC

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dribiwnlys annibynnol a gafodd ei sefydlu yn 2003, dan Adran 333 (1ZA) o Ddeddf Addysg 1996. Mae TAAAC, aelodau ei dribiwnlysoedd a'u penderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol (ALlau) ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Mae cyllid ar gyfer TAAAC a'i gymorth gweinyddol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Ers mis Ionawr 2015, mae plant a phobl ifanc wedi gallu cyflwyno eu hapêl neu hawliad eu hunain i TAAAC, hawl newydd nad yw'n effeithio ar hawliau presennol rhieni na gwarcheidwaid i gyflwyno apêl i TAAAC. Cyflwynwyd yr hawl newydd hon gan Fesur Addysg (Cymru) 2009 a ddiwygiodd ddarpariaethau dan Ddeddf Addysg 1996.

Swyddogaeth TAAAC

Mae TAAAC yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant ag anghenion addysgol arbennig. Rhieni sy'n gwneud yr apeliadau, sydd yn erbyn rhai penderfyniadau penodol y mae'r ALl wedi'u gwneud ynglŷn ag addysg plentyn. Mae TAAAC hefyd yn gwrando ar hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yng Nghymru.

Rheoliadau TAAAC

Mae TAAAC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan TAAAC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron TAAAC yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i TAAAC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau TAAAC yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.
- Deddf Addysg 1996.
- Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mesur Addysg (Cymru) 2009.

Proses TAAAC

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n awyddus i wneud hawliad neu apêl i TAAAC lenwi ac anfon y ffurflen gais berthnasol i TAAAC.

Mewn gwrandawiad TAAAC mae'r panel yn cynnwys Cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau Aelod o'r Panel Byd Addysg. Mae'r Aelodau o'r Panel Byd Addysg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd cyffredinol a'u gwybodaeth am y byd addysg.

Fel arfer caiff gwrandawiadau TAAAC eu cynnal yn breifat mewn lleoliad sy'n agos at gartref y ceisydd.

Aelodau TAAAC

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Llywydd a Chadeiryddion. Gweinidogion Cymru sy'n penodi Aelodau'r Panel o Fyd Addysg.

Llywydd:	Y Llywydd sy'n gyfrifol am reolaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys.
Cadeiryddion	Rheolir gwrandawiadau'r Tribiwnlys gan gadeirydd, ac mae'n rhaid bod ganddo gymhwyster cyfreithiol. Byddant yn ysgrifennu ac yn llofnodi penderfyniadau, rhoi gwybod am ohiriadau a phennu cyfarwyddiadau lle bo angen.
Aelodau'r Panel o Fyd Addysg	Mae Aelodau'r Panel o Fyd Addysg yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob Gwrandawiad. Maent yn eistedd mewn achosion sy'n ymwneud ag Apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
Yr Ysgrifenyddiaeth	Yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd, mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu hawliadau ac yn trosglwyddo Cyfarwyddiadau'r Llywydd yn ysgrifenedig i'r partïon yn yr achos. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartïon yn yr achos ac mae clerc yn bresennol ym mhob gwrandawiad i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



Penodiadau

Cafwyd 5 penodiad newydd o aelodau arbenigol i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Hyfforddiant

O ganlyniad i bandemig COVID-19, roedd y Tribiwnlys wedi gohirio ei hyfforddiant blynyddol. Felly, bydd yr hyfforddiant yn cael ei gwblhau yn ystod cyfnod yr adroddiad nesaf bellach.

Cysylltu â TAAAC

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth TAAAC:

Cyfeiriad TAAAC:	Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Adeiladau'r Llywodraeth Spa Road East Llandrindod Wells Powys LD1 5HA
Llinell Gymorth TAAAC:	03000 259800
Ffacs TAAAC:	03000 259801
E-bost TAAAC:	**tribunal.enquiries@gov.wales**

Defnyddio TAAAC

Mae TAAAC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen rhywun sy'n dehongli drwy iaith arwyddion i ddod i'r gwrandawiad, byddwn yn trefnu hynny.

Bydd darpariaeth yn cael ei gwneud os bydd gofynion eraill o ran mynediad gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad, yn effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gael dehonglwyr neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y mynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Adolygiadau ac apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg yn ôl blwyddyn academaidd o fis Medi i fis Awst. Mae'r Tribiwnlys yn casglu'r data canlynol ar gyfer ystadegau:

Mathau o apeliadau yn ystod 2019-20, o'u cymharu â 2018-19	Tabl 2.1	Tud 9
Apeliadau a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19, gan gynnwys y rheini a gafodd eu cario drosodd	Siart 2.1	Tud 9
Apeliadau yn ôl awdurdod lleol yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19	Tabl 2.2	Tud 10
Apeliadau yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn 2019-20	Tabl 2.3(i)	Tud 11
Apeliadau yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn 2019-20	Tabl 2.3(ii)	Tud 12
Apeliadau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19	Siart 2.2	Tud 13
Apeliadau yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl yn 2019-20	Tabl 2.4	Tud 14
Apeliadau yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol yn 2019-20	Tabl 2.5	Tud 15
Apeliadau yn ôl angen addysgol arbennig yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19	Siart 2.3	Tud 16
Apeliadau yn ôl rhywedd yn 2019-20	Siart 2.4	Tud 16
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2019-20 yn ôl tarddiad ethnig	Siart 2.5	Tud 17
Ceisiadau yn ôl canlyniad 2019-20 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu cario drosodd), o'u cymharu â 2018-19	Tabl 2.6	Tud 18
Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2019-20	Tabl 2.7	Tud 18
Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2019-20	Tabl 2.8	Tud 19
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19	Siart 2.6	Tud 20
Mathau o hawliadau a ddaeth i law yn ystod 2019-20 o'u cymharu â 2018-19	Tabl 2.9	Tud 20
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19	Siart 2.7	Tud 21

Tabl 2.1 – Mathau o apeliadau yn ystod 2019-20, o'u cymharu â 2018-19

Math o Apêl	2019-2020	2018-2019
Gwrthod Asesu	44	58
Gwrthod rhoi Datganiad	20	25
Gwrthod Ailasesu	1	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	23	9
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	24	22
Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	6	5
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	3	3
Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig	17	12
Rhoi'r Gorau i Gynnal	1	1
Heb ei gofnodi	1	0
Cyfanswm	140	135

Siart 2.1 – Apeliadau a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19, gan gynnwys y rheini a gafodd eu cario drosodd



Tabl 2.2 – Apeliadau yn ôl awdurdod lleol yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19

	2019-2020		2018-2019	
	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau
Blaenau Gwent	3	2%	2	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	7	5%	5	4%
Caerffili	3	2%	0	0%
Caerdydd	17	12%	19	14%
Sir Gaerfyrddin	14	10%	6	4%
Ceredigion	1	1%	0	0%
Conwy	5	4%	12	9%
Sir Ddinbych	4	3%	2	1%
Sir y Fflint	4	3%	2	1%
Gwynedd	5	4%	2	1%
Merthyr Tudful	1	1%	1	1%
Sir Fynwy	2	1%	2	1%
Castell-nedd Port Talbot	5	4%	3	2%
Casnewydd	15	11%	18	13%
Sir Benfro	8	6%	6	4%
Powys	16	11%	12	9%
Rhondda Cynon Taf	9	6%	18	13%
Abertawe	10	7%	12	9%
Torfaen	1	1%	4	2%
Bro Morgannwg	8	6%	7	5%
Wrecsam	1	1%	0	0%
Ynys Mon	1	1%	2	1%
Cyfanswm	140	100%	135	100%

Tabl 2.3(i) – Apeliadau yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn 2019-20

	Gwrthod Asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod Ailasesu	Rhoi'r Gorau i Gynnal
Blaenau Gwent	1	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	3	0	0	0
Caerffili	1	0	0	0
Caerdydd	3	4	0	1
Sir Gaerfyrddin	5	2	1	0
Ceredigion	0	0	0	0
Conwy	2	1	0	0
Sir Ddinbych	2	0	0	0
Sir y Fflint	1	0	0	0
Gwynedd	1	2	0	0
Merthyr Tudful	1	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	1	1	0	0
Casnewydd	5	2	0	0
Sir Benfro	2	1	0	0
Powys	5	4	0	0
Rhondda Cynon Taf	2	2	0	0
Abertawe	4	0	0	0
Torfaen	0	0	0	0
Bro Morgannwg	2	1	0	0
Wrecsam	1	0	0	0
Ynys Mon	1	0	0	0
Cyfanswm	43	20	1	1

Tabl 2.3(ii) – Apeliadau yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn 2019-20

	Cynnwys Rhannau 2 a 3	Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Rhan 3	Cynnwys Rhannau 3 a 4	Cynnwys Rhan 4	Heb ei gofnodi
Blaenau Gwent	0	1	0	0	1	0
Pen-y-bont ar Ogwr	2	2	1	0	0	0
Caerffili	0	0	1	0	0	0
Caerdydd	3	3	0	1	1	0
Sir Gaerfyrddin	1	4	0	0	3	0
Ceredigion	1	0	0	0	0	0
Conwy	0	2	0	0	0	0
Sir Ddinbych	0	2	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	0	0	3	0
Gwynedd	1	0	1	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	1	0	0	1	0
Castell-nedd Port Talbot	1	1	1	0	0	0
Casnewydd	2	2	1	1	1	1
Sir Benfro	2	3	0	0	0	0
Powys	4	0	0	0	2	0
Rhondda Cynon Taf	3	0	0	0	1	0
Abertawe	1	3	1	0	1	0
Torfaen	0	1	0	0	0	0
Bro Morgannwg	1	0	0	1	3	0
Wrecsam	0	0	0	0	0	0
Ynys Mon	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	23	25	6	3	17	1

Siart 2.2 – Apeliadau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19



Tabl 2.4 – Apeliadau yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl yn 2019-20

	Nifer yr apeliadau				
	Meithrin	Cynradd	Pontio Cynradd[1]	Uwchradd	Pontio Uwchradd
Gwrthod Asesu	0	29	1	13	0
Gwrthod rhoi Datganiad	1	11	1	7	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	0	14	5	4	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	0	10	4	11	0
Cynnwys Datganiad Rhan 3	0	2	1	3	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	0	2	1	0	0
Cynnwys Datganiad Rhan 4	2	5	4	4	1
Gwrthod Ailasesu	0	1	0	0	0
Rhoi'r Gorau i'w gynnal	0	0	0	1	0
Heb ei gofnodi	0	0	0	1	0
Cyfanswm	3	74	17	44	1

1 Pontio cynradd – blwyddyn olaf addysg gynradd cyn dechrau ysgol uwchradd

Tabl 2.5 – Apeliadau yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol yn 2019-20

	Nifer yr apeliadau				
	Meithrin	Cynradd	Pontio Cynradd	Uwchradd	Pontio Uwchradd
Blaenau Gwent	0	0	0	3	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	4	1	2	0
Caerffili	0	2	0	1	0
Caerdydd	0	10	2	5	0
Sir Gaerfyrddin	1	7	1	5	0
Ceredigion	0	1	0	0	0
Conwy	0	3	1	1	0
Sir Ddinbych	0	2	0	2	0
Sir y Fflint	0	3	1	0	0
Gwynedd	0	2	1	2	0
Merthyr Tydfil	0	1	0	0	0
Sir Fynwy	0	1	0	1	1
Castell-nedd Port Talbot	0	3	1	0	0
Casnewydd	0	7	3	5	0
Sir Benfro	0	4	0	4	0
Powys	0	8	0	8	0
Rhondda Cynon Taf	1	5	2	1	0
Abertawe	0	6	2	2	0
Torfaen	0	1	0	0	0
Bro Morgannwg	1	3	2	2	0
Wrecsam	0	1	0	0	0
Ynys Mon	0	0	0	1	0
Cyfanswm	3	74	17	45	1

Siart 2.3 – Apeliadau yn ôl angen addysgol arbennig yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19



Siart 2.4 – Apeliadau yn ôl rhywedd yn 2019-20



Siart 2.5 – Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2019-20 yn ôl tarddiad ethnig



Tabl 2.6 – Ceisiadau yn ôl canlyniad 2019-20 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu cario drosodd), o'u cymharu â 2018-19

	2019-2020		2018-2019	
	Gwirioneddol	Canran	Gwirioneddol	Canran
Wedi'u caniatáu[2]	45	25	44	26
Wedi'u tynnu yn ôl[3]	52	29	49	26
Wedi'u cadarnhau'n llawn	17	9	15	6
Wedi'u cadarnhau'n rhannol	14	8	6	3
Wedi'u dileu	21	12	13	6
Ar y gweill[4]	31	17	47	33
Cyfanswm	180	100	174	100

Tabl 2.7 – Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2019-20

	Wedi'u caniatáu	Wedi'u tynnu'n ôl	Wedi'u cadarnhau'n llawn	Wedi'u cadarnhau'n rhannol	Wedi'u dileu	Ar y gweill
Gwrthod Asesu	45	10	3	0	4	5
Gwrthod rhoi Datganiad	12	4	1	0	1	2
Gwrthod Ailasesu	0	0	1	0	0	0
Rhoi'r Gorau i Ddatganiad	1	0	0	0	0	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	0	12	0	5	1	5
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	0	8	2	3	4	7
Cynnwys Datganiad Rhan 3	1	3	0	0	0	2
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	0	2	0	0	0	1
Cynnwys Datganiad Rhan 4	4	2	2	0	2	6
Heb ei gofnodi	0	0	0	0	0	1

2 Wedi'u caniatáu – caiff achosion eu caniatáu pan fydd ALl yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys nad yw'n gwrthwynebu'r apêl bellach ac mae wedi cytuno i wneud yr hyn mae'r apelydd wedi'i ofyn yn ei apêl.

3 Wedi'u tynnu'n ôl – bydd achosion yn cael eu tynnu'n ôl pan nad yw'r apelydd yn awyddus i barhau â'i apêl rhagor. Bydd apêl yn cael ei thynnu'n ôl drwy gydsyniad pan fydd y partion wedi dod i gytundeb a'r rhiant yn cytuno i dynnu ei apêl yn ôl ar sail diwygiadau y cytunwyd arnynt

4 Ar y gweill – mae achos ar y gweill yn y tribiwnlys.

Tabl 2.8 – Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2019-20

	Wedi'u caniatáu	Wedi'u tynnu'n ôl	Wedi'u cadarnhau'n llawn	Wedi'u cadarnhau'n rhannol	Wedi'u dileu	Ar y gweill
Blaenau Gwent	1	0	0	0	0	2
Pen-y-bont ar Ogwr	1	3	1	1	0	1
Caerffili	1	0	0	0	1	1
Caerdydd	8	4	2	2	0	1
Sir Gaerfyrddin	4	4	1	0	2	1
Ceredigion	0	0	0	0	0	1
Conwy	2	2	1	0	0	0
Sir Ddinbych	1	1	0	1	1	0
Sir y Fflint	1	1	0	0	0	2
Gwynedd	2	3	0	0	0	0
Merthyr Tudful	1	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0	1	1
Castell-nedd Port Talbot	1	3	0	0	0	1
Casnewydd	3	4	0	2	4	2
Sir Benfro	3	0	0	0	1	0
Powys	3	0	2	0	0	8
Rhondda Cynon Taf	3	0	0	2	0	1
Abertawe	1	5	0	0	1	3
Torfaen	0	1	0	0	0	0
Bro Morgannwg	3	1	1	0	1	2
Wrecsam	0	0	1	0	0	0
Ynys Mon	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	39	41	9	8	12	28

Siart 2.6 – Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19



Tabl 2.9 – Mathau o hawliadau a ddaeth i law yn ystod 2019-20 o'u cymharu â 2018-19

Math o hawliad	2019-2020		2018-2019	
Derbyn i'r Ysgol	2	13%	1	5%
Addysg	11	69%	12	63%
Gwahardd	3	13%	3	16%
Heb gofnodi	0	0%	3	16%

Siart 2.7 – Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2019-20, o'u cymharu â 2018-19



Yn ystod 2019-2020, rhoddwyd gwrandawiad i 64 o achosion, dyfarnwyd 14 achos ar sail papur yn unig, a chynhaliwyd 50 o wrandawiadau llafar – cynhaliwyd 26 o'r 50 o wrandawiadau llafar yn rhithwir, a oedd yn golygu 83 o ddiwrnodau gwrandawiadau:

Math	Nifer y diwrnodau
Apêl	62
Hawlio	7
Papur	14 (1 Hawliad a 13 Apêl)

Adolygiadau ac apeliadau pellach

Gall partïon wneud cais i benderfyniad y Tribiwnlys gael ei adolygu ar sail gyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, cafodd 4 cais eu gwneud, caniatawyd 1 cais a gwrthodwyd 3.

Gall partïon ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn meddwl bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaethpwyd 4 cais am ganiatâd – gwrthodwyd 3 o'r ceisiadau hynny a chaniatawyd 1. Roedd y Tribiwnlys hefyd wedi ystyried 5 cais ychwanegol o'r cyfnod adrodd blaenorol a gwrthodwyd pob un o'r rheini.

Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod). Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd gennym sy'n deillio o arolygon cyfnodol ar foddhad cwsmeriaid a ddarperir wrth i achos ddod i ben (gweler adran 3).

Cyflymder ein gwasanaeth

Targed: Trin 95% o'r ymholiadau cyn-cofrestru cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y Ffurflen Gais/Apêl.	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 75% o'r achosion
Targed: Cofrestru 95% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y Ffurflen Gais/Apêl.	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 79% o'r achosion
Targed: Rhoi 75% o'r penderfyniadau cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad.	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 50% o'r achosion
Targed: Ymdrin â 75% o Apeliadau/Hawliadau cyn pen 20 wythnos.	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 79% o'r achosion

Cwynion

Derbyniodd y Tribiwnlys 1 gŵyn yn ystod y flwyddyn a'r penderfyniad oedd nad y Tribiwnlys oedd ar fai.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid

Arolwg boddhad cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau cwsmeriaid a'r nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Caiff ein harolwg boddhad cwsmeriaid ei rannu ar ddiwedd achos. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus y Tribiwnlys, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Rydym yn cydlynu'r wybodaeth ynghylch cyfathrebu a'r gwasanaeth, lefel boddhad gyda lleoliad y gwrandawiad, cymorth y staff a gwefan y tribiwnlys.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2019-2020

Mae'n bwysig bod TAAAC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd TAAAC yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

- Cynllunio a chynnal digwyddiad hyfforddi i'r holl aelodau;
- Cynllunio a chynnal cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr yng ngogledd a de Cymru;
- Trefnu a chynnal gwerthusiadau ar gyfer yr holl aelodau;
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefan Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru;
- Parhau i gyfrannu at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y bil anghenion dysgu ychwanegol a'r tribiwnlys addysg;
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, bodloni dangosyddion perfformiad allweddol ac ymateb i adborth mewn arolygon boddhad cwsmeriaid.

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon, ein:

- Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol Ebrill 2019 i Fawrth 2020

Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r aelodau ar gyfer achosion y tribiwnlys	£269,042
Digwyddiadau'r Tribiwnlys a chostau lleoliad gwrandawiadau	£48,456
Cyfanswm*	£317,498

* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf